

Hysbysiad Preifatrwydd – Cynnig Gofal Plant

Darperir yr hysbysiad hwn i egluro pa wybodaeth sydd ei hangen ar y Cyngor er mwyn prosesu ceisiadau am y Cynnig Gofal Plant. Mae angen i'r Cyngor gynnwll, casglu, storio a phrosesu gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni ei wasanaethau. Mae'r Cyngor yn rhoi mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd unigolion trwy gydol y broses hon.

Pwy sy'n gyfrifol am eich gwybodaeth?

Cedwir a phrosesir yr holl wybodaeth bersonol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. I gael gwybodaeth am rôl y Rheolwr Data, Swyddog Diogelu Data a Manylion Cyswllt ar gyfer y Cyngor, cyfeiriwch at dudalen 'Diogelu Data' gwefan y Cyngor:

<https://blaenau-gwent.gov.uk/en/Council/data-protection-foi/data-protection-act/>

Pa wybodaeth sydd ei hangen arnom?

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, ac os oes angen, eich teulu a phartïon eraill. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

Manylion amdanoch chi, eich partner (os yw'n berthnasol) a'ch plentyn, fel enwau, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, dyddiad geni, gwybodaeth am gydraddoldeb;

Gwybodaeth berthnasol arall i brosesu'ch cais, megis; manylion cyflogaeth, arwydd os oes gan eich plentyn angen ychwanegol;

Gwybodaeth fonitro a gasglwyd at ddibenion ymchwil Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i brosesu eich cais a / neu weinyddu'r camau gweithredu angenrheidiol. Efallai y byddwn yn gwirio peth o'r wybodaeth gyda ffynonellau eraill i sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gywir.

Pam mae angen eich gwybodaeth arnom?

Mae'r Cyngor yn gofyn am y wybodaeth hon er mwyn darparu'r gwasanaethau yr ydych yn gofyn amdanynt ac i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Gyda phwy fyddwn yn rhannu'ch gwybodaeth?

Er mwyn galluogi'r Cyngor i brosesu eich cais a chydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau partner, gan gynnwys:

Llywodraeth Cymru;

Archwilwyr;

**Bwrdeistref Sirol Torfaen (i ymgeiswyr Torfaen);
Sefydliadau ymchwil allanol a rheoleiddwyr**

Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth at ddibenion cyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau gorfodi statudol. Bydd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gallant hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod / atal twyll neu archwilio / gweinyddu arian cyhoeddus.

Am ba hyd y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth?

Bydd y Cyngor ond yn cadw eich gwybodaeth cyn belled ag y bo angen. Mae manylion llawn am ba hyd y mae'r Cyngor yn cadw'ch gwybodaeth ar gael trwy gysylltu â'r Adran berthnasol sy'n gyfrifol am y gwasanaethau y mae eu hangen arnoch.

Canolfan gyswilt y Cyngor: info@blaenau-gwent.gov.uk / 01495 311556.

Darparu gwybodaeth gywir

Mae'n bwysig ein bod yn cadw gwybodaeth gywir a chyfoes amdanoch chi er mwyn asesu eich anghenion a chyflwyno'r gwasanaethau priodol. Os yw unrhyw un o'ch manylion wedi newid, neu'n newid yn y dyfodol, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym cyn gynted ag y bo modd er mwyn i ni allu diweddarau'ch cofnodion.

Gwneud Penderfyniadau Awtomatig

Mae rhai penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifiadur gan fod y Cyngor yn defnyddio systemau awtomataidd i gefnogi ei wasanaethau. Os caiff eich data personol ei brosesu trwy gyfrwng awtomataidd, fe'ch hysbysir am y canlyniadau a chrynodeb o'r meini prawf a ddefnyddir yn y broses hon. Mae'r canlyniadau yn destun penderfyniad terfynol gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol.